# TAFLEN WYBODAETH: YMCHWILIO I DDAMWAIN / DIGWYDDIAD

Mae'r Daflen Wybodaeth hon yn cynnig arweiniad ar y broses sy'n ofynnol ei dilyn gan unrhyw Goleg / Ysgol / Gwasanaeth Proffesiynol sy'n ymchwilio i ddamwain neu ddigwyddiad er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu; gyda'r amcan o atal digwyddiad tebyg yn y dyfodol.

**SYLWCH:** Un o egwyddorion craidd trefn adrodd damweiniau a digwyddiadau'r Brifysgol yw un o 'Diwylliant Diogelwch Cyfiawn'. Mae hyn fel bod atebolrwydd a dealltwriaeth ar y cyd yn digwydd mewn damwain, digwyddiad, a digwyddiad a fu bron â digwydd. O'r herwydd, mae'r Brifysgol yn annog staff a myfyrwyr yn frwd i adrodd am ddigwyddiadau a phryderon fel y gallwn reoli'r rhain mewn ffordd sy'n hyrwyddo darparu cymorth, dysgu a gwelliant priodol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles ein cymuned.

## Pryd i gynnal Ymchwiliad i Ddamwain / Digwyddiad

Rhaid ymchwilio i bob damwain a digwyddiad sy'n cymryd lle yn y brifysgol, neu yn ystod gweithgareddau dan arweiniad y brifysgol. **Mae hynny'n wir p'un a bo rhywun wedi cael anaf ai peidio.** Rhaid ymchwilio i ddamwain neu ddigwyddiad nid yn unig oherwydd anaf neu afiechyd sy'n deillio ohono, ond rhaid ymchwilio iddo hefyd os gallai'r digwyddiad fod wedi peri niwed, neu os gallai digwyddiad tebyg godi eto. Bydd y broses ymchwilio yn helpu'r Brifysgol i:

- Sefydlu'r achos.
- Atal ail ddigwyddiad tebyg.

Er bod yn rhaid ymchwilio i bob damwain a digwyddiad, mae'r un mor bwysig na ddefnyddir adnoddau helaeth i gynnal mân ymchwiliadau. Dylai'r amser etc. a dreulir ar yr ymchwiliad adlewyrchu difrifoldeb neu ddifrifoldeb posibl y ddamwain neu ddigwyddiad. Er enghraifft, peidiwch â threulio wythnos yn ymchwilio i sut y bu i rywun dorri eu bys yn agor blwch o bapur ond cymerwch amser i ymchwilio os yw aelodau staff yn brifo eu cefnau'n gyson wrth symud deunyddiau a chyfarpar rhwng eu swyddfa a lleoliadau eraill y mae'n rhaid iddynt ymweld â hwynt fel rhan o'u gwaith.

## Pwy sy'n gyfrifol am Ymchwiliadau?

Rhaid i Ddeoniaid Colegau / Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol sicrhau yr ymchwilir i bob damwain a digwyddiad o fewn eu cylch cyfrifoldeb. Caiff y swyddogaeth hon fel arfer ei dirprwyo i Gydlynydd Iechyd a Diogelwch y Coleg/Gwasanaeth neu'r rheolwr llinell/goruchwyliwr perthnasol.

Bydd Gwasanaethau Eiddo a Champws yn ymchwilio i ddamweiniau a digwyddiadau sy'n cymryd lle ar y rhannau hynny o ystâd y brifysgol nad ydynt o dan reolaeth, na chyfrifoldeb unrhyw Goleg /Gwasanaeth penodol, ac mewn rhai achosion byddant hefyd yn cynnwys y Swyddfa Iechyd a Diogelwch.

Bydd y Swyddfa Iechyd a Diogelwch yn ymchwilio i ddamweiniau a digwyddiadau os yw hi'n aneglur lle mae'r cyfrifoldeb yn gorwedd, neu os oes angen ymchwiliad manylach o achos difrifoldeb y digwyddiad. Er enghraifft, damweiniau a digwyddiadau a hysbyswyd i'r Weithrediaeth

Iechyd a Diogelwch o dan y Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR).

**Pwy ddylai gynnal yr Ymchwiliad?**

Ym mhob achos dylai Cydlynydd Iechyd a Diogelwch y Coleg/Gwasanaeth a rheolwr llinell/ goruchwyliwr[1] y sawl sydd wedi anafu fod yn ymwybodol o unrhyw ddamweiniau/digwyddiadau o fewn cylch eu cyfrifoldeb a dylent ymchwilio i'r digwyddiad at lefel sy'n gweddu i'w ddifrifoldeb.

Pobl eraill a allai fod yn rhan o'r broses ymchwilio:

- Cynrychiolwyr Staff (o'r undebau llafur ac yn annibynnol i'r undebau llafur)
- Cynrychiolwyr Myfyrwyr
- Gwasanaethau Eiddo a Champws (yn achos mater sy'n ymwneud â'r safle neu adeilad) a'r Swyddfa Iechyd a Diogelwch.

Dylid defnyddio cyn lleied â phosib o bobl yn yr ymchwiliad, dim ond y rheiny sydd â gwybodaeth ddigonol am y staff / myfyriwr dan sylw, y gweithgaredd oedd yn cael ei gyflawni, yr amgylchedd gwaith ac unrhyw brosesau neu drefnau cysylltiedig.

Dylid rhoi cyfle i gynrychiolwyr staff a myfyrwyr gymryd rhan os oes eu hangen a gallant hyd yn oed gynnal eu hymchwiliad annibynnol eu hunain os teimlir bod hynny'n briodol.

**SYLWCH: Bydd y Swyddfa Iechyd a Diogelwch yn arwain pob ymchwiliad i ddamwain / digwyddiad pan fo angen hysbysu'r Awdurdodau Statudol.**

**Y Broses Ymchwilio**

Bydd rheolwyr llinell, Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch neu gynrychiolwyr diogelwch fel arfer yn dechrau ymchwiliad o ganlyniad i adroddiad llafar. Ond weithiau cynhelir ymchwiliad yn sgil derbyn Ffurflen Damwain / Digwyddiad a dyna pam ei bod yn bwysig iawn i lenwi'r ffurflen hon yn brydlon.

Mae'n bwysig, waeth pwy sy'n cynnal yr ymchwiliad, ei fod yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl pan fo gan dyst/tystion gof clir o'r hyn a ddigwyddodd a bod yr amodau'n debyg.

Y **CHWE** Egwyddor Ymchwilio:

1. **PWY:** Pwy oedd yn gysylltiedig neu a gafodd anaf (os unrhyw un)?
2. **PRYD:** Pryd ddigwyddodd y ddamwain neu'r digwyddiad?
3. **YMHLE:** Ble'n union y digwyddodd y ddamwain / digwyddiad?
4. **SUT:** Beth ddigwyddodd i achosi'r ddamwain / digwyddiad?
5. **PAM:** Pam ddigwyddodd y ddamwain / digwyddiad?

[1] Dylai fod yn unigolyn sydd â gwybodaeth ddigonol am y sawl sydd wedi'i anafu / y man gwaith, y dasg oedd yn cael ei chyflawni ac asesiadau risg cysylltiedig, trefnau gwaith diogel etc.

6. **CAMAU GWEITHREDU:** Beth ellir ei wneud i atal damwain / digwyddiad tebyg rhag cymryd lle?

**Adolygiad**

Mae'n hanfodol, pan fo angen, i wersi cael eu dysgu trwy gyfrwng y broses ymchwilio a bod unrhyw gamau yn cael eu gweithredu'n brydlon ac yn cael eu holrhain hyd nes eu cwblhau.

Dylid mabwysiadu proses o fewn strwythur rheoli lleol y Coleg/Gwasanaeth i adolygu damweiniau, digwyddiadau ac ymchwiliadau yn ffurfiol. Er enghraifft, ei gynnwys fel eitem ar yr agenda i'w drafod mewn cyfarfodydd tîm, grwpiau ffocws Iechyd a Diogelwch a/neu yn fwy ffurfiol ym Mhwyllgor Iechyd a Diogelwch y Coleg / Gwasanaeth.

Yn ogystal, rhaid sefydlu systemau i gyfleu gwybodaeth berthnasol i eraill yn ôl yr angen, er enghraifft asesiad risg diwygiedig trwy *Blackboard*, e-bost grŵp, hysbysfyrddau, cylchlythyrau etc.

**Beth i'w ystyried**

| | |
|---|---|
| *Cynllunio* | Dylai'r ymchwiliad sefydlu'r ffeithiau er mwyn canfod yr achos a gwneud argymhellion i atal ail ddigwyddiad neu i leihau ei effeithiau. |
| *Y Lleoliad:* | Archwilio'r lleoliad cyn gynted â phosibl ac, os oes angen, ynysu'r fan er mwyn osgoi aflonyddu. Archwilio'r amodau amgylcheddol ac unrhyw gyfarpar a ffitiadau (ynyswch hwynt nes bod eu diogelwch wedi'i sicrhau). Tynnwch luniau, gwnewch frasluniau, casglwch dystiolaeth megis offer, sylweddau ac unrhyw ddogfennaeth berthnasol; taflenni llofnodi, trwyddedau gweithio, asesiadau risg, gan nodi o le y cymerwyd yr eitemau. |
| *Tyst(ion)* | Gofynnwch am farn a sylwadau unrhyw un a welodd y digwyddiad. |
| *Datganiadau Tystion* | Os oedd y digwyddiad yn un difrifol, bydd angen datganiadau gan dystion. Dylid cyfweld â thystion un ar y tro; yn lleoliad y ddamwain/digwyddiad neu mewn lleoliad anffurfiol.<br><br>Gwnewch i'r tystion deimlo'n gartrefol. Eglurwch y gallant ddod â rhywun yn gwmni iddynt ac mai'r diben yw canfod yr achos ac nid rhoi bai. Peidiwch â rhoi geiriau yn eu ceg, ond rhowch anogaeth iddynt siarad yn rhydd.<br><br>Cymerwch nodiadau o'r hyn a ddywedwyd, gan ofyn i'r tyst ddarllen yr hyn a ysgrifennwyd ar y diwedd, gan lofnodi eu datganiad os ydynt yn dymuno. |
| *Adrodd a Chloi* | Dylai manylion a chymhlethdod yr adroddiad adlewyrchu natur y ddamwain /digwyddiad a dylai ddilyn y chwe egwyddor a amlinellir uchod. Wrth gynnal yr ymchwiliad, meddyliwch am y canlynol:<br><br>o *Y lleoliad* - amodau amgylcheddol, yr amser, taclusrwydd, y tywydd, goleuo etc. |

| | |
|---|---|
| | ○ *Y cyfarpar, y deunyddiau a'r gweithgaredd* - ystyriwch natur y cyfarpar, peiriannau, cemegau a deunyddiau. Faint a ddefnyddiwyd, ym mha ffordd - a oes cofnodion e.e. stocrestri, cofnodion cynnal a chadw a defnydd?<br><br>○ *Pobl* - a oedd gan y sawl a anafwyd ac eraill dan sylw'r profiad a'r gallu angenrheidiol i gyflawni'r dasg e.e. hyfforddiant, sesiynau cynefino?<br><br>○ *Camau Rheoli* - a oes trefnau diogelwch ar waith e.e. asesiadau risg, polisïau, lefelau goruchwylio? A yw'r rhain yn cael eu defnyddio ac a yw pobl yn gwybod amdanynt e.e. sesiynau cynefino, arwyddion, llawlyfrau?<br><br>○ *Cloi* - mae'r hyn a achosodd y ddamwain / digwyddiad fel arfer yn dod i'r amlwg yn dilyn ystyried y ffeithiau'n ofalus. |

**<u>Ymchwiliad Enghreifftiol</u>**


Mae'r canlynol yn ddamwain ffug gyda chanfyddiadau'r ymchwiliad isod. Mae'r penawdau'n dilyn y chwe egwyddor a amlinellir uchod, sydd i'w gweld ar y Ffurflen Damwain ac Ymchwiliad sydd ynghlwm, ac sydd ar gefn Ffurflen Damwain / Digwyddiad y brifysgol sydd ar gael ar y wefan Iechyd a Diogelwch.

**<u>Gosod y cefndir</u>**

Trodd Mary Bloggs ei ffêr chwith ar ôl llithro ar y grisiau isod. Roedd Mary wedi bod yn mynd â'r olaf o amryw o fagiau bin (yn y llun isod) i'r man casglu gwastraff, sydd ar waelod rhes o risiau, pan syrthiodd.



Bagiau bin



Grisiau



Esgidiau a wisgwyd ar y pryd

## RHAN G - YMCHWILIAD I DDAMWAIN / DIGWYDDIAD[2]

- RHAID ymchwilio i bob damwain a digwyddiad sy'n cymryd lle yn y brifysgol, neu yn ystod gweithgareddau dan arweiniad y brifysgol.
- Dylai'r amser a'r adnoddau a dreulir ar yr ymchwiliad adlewyrchu difrifoldeb neu ddifrifoldeb posibl y ddamwain / digwyddiad, NID yw'n dibynnu ar p'un ai y cafodd rhywun ei anafu. Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ar wefan y Swyddfa Iechyd a Diogelwch.
- Dylai ymchwiliad bennu'r canlynol:
  - Casglu / cadw tystiolaeth. **Cymerwch luniau os yn bosibl.**
  - Pwy oedd yn gysylltiedig neu a gafodd anaf (os unrhyw un)?
  - Pryd ddigwyddodd y ddamwain / digwyddiad?
  - Ble ddigwyddodd y ddamwain / digwyddiad?
  - Sut ddigwyddodd y ddamwain / digwyddiad?
  - Pam ddigwyddodd y ddamwain / digwyddiad?
  - Y camau i'w cymryd er mwyn ei atal rhag digwydd eto.

| | |
|---|---|
| Enw'r sawl sy'n cynnal yr ymchwiliad: | Ivor Mop (Rheolwr Domestig) |
| Dyddiad yr Ymchwiliad: | 14 Mehefin 2014 |
| Enwau'r sawl a gafodd eu cyfweld (tystion): | Mary Bloggs (dim tystion eraill) |
| Pwy oedd yn gysylltiedig / a gafodd anaf? | Mary Bloggs, staff domestig |
| Pryd ddigwyddodd y ddamwain / digwyddiad? | 13 Mehefin 2014, Amser: 10.00am |
| Ble ddigwyddodd y ddamwain / digwyddiad? | Grisiau mynediad Tŵr Trump, Ffordd y Coleg, safle'r Coleg Uchaf |
| Sut ddigwyddodd y ddamwain / digwyddiad, beth a ddigwyddodd? | • Llithrodd Mary ar y grisiau wrth fynd â'r olaf o 20 bag bin oedd wedi'u storio yn y cyntedd i'r prif bwynt casglu gwastraff ar waelod grisiau'r fynedfa.<br>• Symudodd y bag bin gan achosi i Mary symud i un ochr, colli ei chydbwysedd a disgyn i lawr y ddau ris isaf.<br>• Trodd Mary ei ffêr chwith o ganlyniad i'r cwymp a bu'n rhaid iddi fynd at ei meddyg i gael ei rhwymo. |

[2] Wedi'i gymryd o Ffurflen Damwain / Digwyddiad y brifysgol www.bangor.ac.uk/hss/inflink/accidentandincidentfinalb.php.en

| | |
|---|---|
| Beth achosodd y Ddamwain / Digwyddiad h.y. ffactorau cyfrannol? | • **Gweler y lluniau uchod.**<br>• Roedd staff Tŵr Trump wedi bod yn glanhau eu swyddfeydd a olygai fod yna lawer o fagiau bin wedi cael eu gadael i'w casglu.<br>• Roedd Mary yn rhoi gormod o gymorth drwy symud y bagiau bin a heb ofyn i'w goruchwyliwr / cydweithiwr am help.<br>• Nid oedd Mary yn teimlo y gallai ofyn am gymorth gan ddeiliaid adeilad Tŵr Trump.<br>• Roedd Mary wedi blino erbyn diwedd y gwaith o symud y bagiau bin i'r man casglu gwastraff, yn arbennig gan fod rhai o'r bagiau wedi'u gorlwytho ac yn lletchwith a thrwm i'w cario.<br>• Nid oedd Mary wedi cael hyfforddiant ar sut i godi pethau'n gywir.<br>• Nid oedd Mary wedi derbyn unrhyw hyfforddiant cynefino Iechyd a Diogelwch felly nid oedd yn deall pam y dylai wisgo esgidiau fflat addas gyda gwadnau â gafael arnynt.<br>• Mae'r grisiau'n aml yn llithrig gan fwsogl oherwydd y coed sy'n crogi drostynt sy'n gadael i ddŵr gasglu ar y grisiau yn hytrach na sychu - dyna sy'n peri'r mwsogl. |
| Pa gamau caiff eu cymryd i atal damwain / digwyddiad tebyg rhag cymryd lle? | • Caiff Mary waith swyddfa i orffwys ei ffêr a rhoi cyfle iddi wella.<br>• Y Rheolwr Domestig i ysgrifennu at staff Tŵr Trump yn gofyn iddynt roi gwybod iddi am unrhyw waith glanhau mawr yn y dyfodol er mwyn gallu dod â staff domestig ychwanegol i helpu.<br>• Hysbysu staff Tŵr Trump na ddylent orlwytho bagiau bin ac y gallant fynd â'r bagiau i'r man casglu eu hunain.<br>• Yr holl staff domestig i dderbyn hyfforddiant codi a chario.<br>• Yr holl staff domestig i dderbyn hyfforddiant cynefino yn eu hatgoffa am faterion iechyd a diogelwch allweddol e.e. pa esgidiau i'w gwisgo, pryd i wisgo menig, cael gwared ar eitemau miniog etc. (Rhoddir ystyriaeth i brynu esgidiau addas ar gyfer staff domestig).<br>• Goruchwylwyr i gynnal gwiriadau i sicrhau bod staff yn dilyn y canllawiau codi a chario a chyfarwyddiadau hyfforddiant cynefino.<br>• Atgoffa staff eu bod yn gallu gofyn am help ac y gallant wrthod gwneud rhywbeth a gofyn i'w goruchwyliwr am gyngor os ydynt yn teimlo eu bod yn peryglu eu hunain.<br>• Y Gwasanaeth Eiddo a Champws i sefydlu trefn cynnal a chadw ar gyfer y grisiau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu golchi'n rheolaidd â jet ac yn cael eu cadw'n rhydd o fwsogl. |